

BBC

EIN CENHADAETH A'N GWERTHOEDD

EIN CENHADAETH

Mae ein nod yn syml - cyfoethogi bywydau pobl â rhaglenni a gwasanaethau sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu fel y sefydliad mwyaf creadigol yn y byd. Ond nid ydym yn canolbwyntio ar yr hyn a wnawn yn unig - mae'r ffordd rydym yn ei gyflawni hefyd yn bwysig i ni.

EIN GWERTHOEDD

Mae gennym chwech o werthoedd, neu safonau, y mae pobl ar draws y BBC yn eu rhannu. Maent yn cynrychioli'r disgwyliadau sydd gennym ohonom ni ein hunain ac o eraill, maent yn llywio ein penderfyniadau o ddydd i ddydd a'r ffordd rydym yn ymddwyn.

Ymddiriedaeth yw sail y BBC; rydym yn annibynnol, yn ddiuedd ac yn ddiidwyl

Rydym yn gywir ac yn deg ym mhob rhan o'n gwaith. Rydym yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ein gwerthoedd, yn glynu wrthynt ac yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt. Rydym yn ymddwyn yn gywir ac yn gwneud yr hyn rydym yn addo ei wneud.

Mae cynulleidfaoedd wrth wraidd popeth a wnawn

Rydym yn rhoi'r gynulleidfa gyntaf. Rydym yn cydnabod nad yw cynulleidfaoedd i gyd fel ni a'n ffrindiau, felly rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwybod sut mae eu hanghenion yn newid. Ac rydym yn addasu.

Ymfalchiwn mewn cyflwyno ansawdd a gwerth am arian

Rydym yn gofyn cryn dipyn ohonom ein hunain. Rydym yn gofyn am help pan fydd ei angen arnom ac yn gwybod ble mae'n rhaid i ni wella. Rydym yn herio gwastraff ac yn gwario arian fel petai'n eiddo i ni ein hunain. Rydym yn defnyddio ein hegni i wneud pethau'n well ac yn newid neu'n rhoi'r gorau i bethau nad ydynt yn gweithio.

Creadigrwydd yw hanfod ein sefydliad

Rydym yn ddewr. Rydym yn arloesi ac yn dangos dyhead creadigol, gan roi cynnig ar bethau newydd a chrosawu technoleg newydd. Rydym yn chwilio am safbwyntiau gwahanol, syniadau a barn eraill. Rydym yn manteisio ar gyfleoedd i hyfforddi ein hunain, datblygu ein gyrfaoedd a rhoi cynnig ar rolau newydd.

Rydym yn parchu ein gilydd ac yn dathlu ein hamrywiaeth. Rydym yn parchu ein cydweithwyr, pwy bynnag ydynt. Rydym yn onest, yn uniongyrchol ac yn gwrtais bob amser. Rydym yn herio syniadau pobl eraill ond yn parchu'r penderfyniadau a wneir. Rydym yn llysgenhadon i'n sefydliad; rydym yn lleisio ein barn os bydd rhywbeth o'i le ac yn delio â hynny o fewn y BBC.

Rydym yn un BBC; mae pethau gwych yn digwydd pan fyddwn yn cydweithio

Rydym yn gweithio ar draws ein timau i greu mwy i'n cynulleidfaoedd, gan rannu syniadau a chynnwys eraill er mwyn eu gwella. Rydym yn gwneud cysylltiadau o fewn y BBC a'r tu allan ac yn dysgu gan y diwydiant ehangach.

RHEOLWYR GWYCH AC ARWEINWYR YSBRYDOLEDIG

Ein pobl yw'r BBC. Maent yn amrywiol, yn greadigol, yn feddylgar, yn dalentog ac yn chwilfrydig, ac mae angen arweinyddiaeth wych arnynt.

Mae rheolwr yn y BBC yn esiampl dda ar gyfer ein holl werthoedd.

Maent yn ysgogi ac yn ysbrydoli eu tîm drwy ddod i'w hadnabod. Maent yn deall gwahaniaethau ac amcanion eu pobl ac yn addasu eu dull arwain fel y bo'n briodol.

Maent yn gosod disgwyliadau clir ac yn cael gwared ar rwystrau. Yn aml, maent yn rhoi adborth didwyll, uniongyrchol mewn ffordd adeiladol a gyda chwarteisi. Maent yn adnabod ac yn gwobrwyo perfformiad da yn deg ac yn unol â'r person. Maent yn cefnogi eu timau i wella drwy fynd i'r afael â materion fel y maent yn codi. Nid ydynt yn derbyn nac yn anwybyddu problemau o ran perfformiad nac ymddygiad, ac nid ydynt yn trosglwyddo'r materion hynny i eraill.

Maent yn cefnogi eu pobl fel y gallant ddatblygu eu gyrfaedd eu hunain. Maent yn cynnal sgysiau rheolaidd am ddatblygiad proffesiynol a gyrfa. Maent yn annog eu tîm i gael mynediad at hyfforddiant ac i ddatblygu, gan ddefnyddio eu rhwydweithiau eu hunain i'w helpu. Maent yn rhannu sgiliau a phrofiad ac yn cefnogi pobl wrth lywio eu cynlluniau gyrfa eu hunain.

Maent yn gwybod sut i ysgogi, adnewyddu ac adfywio ein pobl wych. Maent yn helpu pobl i symud o gwmpas y BBC, gan greu gofod a chyfleoedd er mwyn i ni allu cadw a denu'r bobl orau.

Maent yn cyfathrebu â'u tîm ac yn eu harwain. Maent yn esbonio rôl eu tîm wrth gyflwyno'r weledigaeth a'r strategaeth ac maent yn agored ac yn onest am yr hyn sy'n digwydd yn y BBC. Maent yn gwneud yn siŵr bod eu pobl yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn eu maes. Maent yn gwrando ar eu tîm ac yn rhoi cymorth iddynt drwy newid.

Maent yn gwneud yn siŵr bod y BBC yn cael ei redeg yn dda. Maent yn helpu i gadw ein polisïau a'n prosesau yn syml ac yn effeithiol, ac yn gwneud yn siŵr bod eu tîm yn eu dilyn. Maent yn gwobrwyo eu pobl nid yn unig yn seiliedig ar yr hyn a wnânt, ond hefyd y ffordd maent yn ei gyflawni. Maent yn helpu eu tîm i gydweithio a gwneud y gorau o'r amser, y gofod a'r offer. Maent yn gwneud penderfyniadau dewr ar gyfer y tymor hir.